# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-18-2006)

### Dyddiad y Cyfarfod: 13 Mehefin 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Janice Gregory

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-17-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. 3.1 Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod y ddeddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1292 – Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006

4.2 Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod y Gorchymyn hwn yn cynnwys sawl enghraifft o iaith rhyw benodol. Nodwyd bod y Gorchymyn hwn wedi'i seilio ar y cynllun pensiwn presennol a wnaed pan gymerwyd yn ganiataol bod diffoddwyr tân yn ddynion ac felly defnyddiwyd rhagenwau gwrywaidd drwy'r gorchymyn cyfan. Fodd bynnag, mae llawer o fenywod yn ddiffoddwyr tân erbyn hyn, ac felly mae'r term "widow" yn amhriodol hefyd. Esboniodd y cynghorydd cyfreithiol y byddai'n ormod o waith newid y cynllun gan fod iaith rhyw benodol wedi cael ei defnyddio'n helaeth. Byddai angen ailddrafftio'r cyfan, a bydd hyn yn bosibl gyda'r cynllun newydd a gaiff ei baratoi ar gyfer recriwtio diffoddwyr tân newydd ar hyn o bryd.

4.3 Dilynwyd hyn â thrafodaeth mewn perthynas â'r angen am arbenigedd wrth i bwerau pellach fel hyn gael eu trosglwyddo i'r Cynulliad, yn arbennig yn dilyn etholiadau 2007. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog ar y mater hwn. Cam i'w gymryd: Cadeirydd/Clerc

4.4. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.5. Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau

yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1294 – Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

LC1297 – Gorchymyn Trwyddedau Tai Amlfeddiannaeth (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006

LC1298 – Rheoliadau Trwyddedau a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006

LC1299 – Rheoliadau Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Cymru) 2006

LC1304 – Rheoliadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006

LC1306 – Housing Health And Safety Rating System: Operating Guidance (Housing Act 2004: Part 1)

LC1307 – Housing Conditions: Enforcement Guidance (Housing Act 2004: Part 1 – Housing Health And Safety Rating System)

LC1305 – Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Dros Dro) (Amgylchiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2006

LC1311 - Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod yr Adroddiad ar yr Adolygiad wedi'i gyhoeddi a'i fod ar fin cael ei ddosbarthu i'r Aelodau. Canmolodd dîm cyfreithiol/gweinyddol y Pwyllgor am eu cymorth gyda chyhoeddi'r Adroddiad.

5.2 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau ei fod wedi derbyn llythyr gan Mr Keith Towler, Cadeirydd Grwp Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Gofynnodd Mr Towler i'r Pwyllgor ystyried a allai fabwysiadu polisi i sicrhau bod deddfwriaeth berthnasol y Cynulliad yn gweithredu'n unol â'r UNCRC. Awgrymodd y cadeirydd y dylid dosbarthu'r llythyr i Aelodau'r Cynulliad ac y dylai ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog i sicrhau eu bod yn ymwybodol o hyn. Cytunodd yr Aelodau â'r awgrymiadau hyn. Cam i'w gymryd: Cadeirydd

5.3 Hysbysodd y Cynghorydd Cyfreithiol yr Aelodau ei fod wedi derbyn rhagor o wybodaeth mewn cysylltiad â sut i gyfieithu'r term Cymraeg "enceffalopathiau". Esboniodd y Prif Gyfieithydd Cyfreithiol y gwaith ymchwil a gynhaliwyd a'r angen am gysondeb â deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli lle y

defnyddiwyd y term. Nododd yr Aelodau'r wybodaeth.

5.4 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 20 Mehefin 2006.

## Cam i'w gymryd:

4.3 Gofynnwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog mewn cysylltiad â'r defnydd o iaith rhyw benodol yn y ddeddfwriaeth pensiwn. Cam i'w gymryd: Cadeirydd/Clerc

5.2 Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn dosbarthu'r llythyr gan Gadeirydd Grwp Monitro UNCRC i Aelodau'r Pwyllgor ac y dylai ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mater a godwyd yn y llythyr. Cam i'w gymryd: Cadeirydd/Clerc